

## **Pa neges yr hoffech chi ei rhoi i gynadleddwyr?**

### **Gareth Jones, Llywodraeth Cymru**

Yr un neges allweddol ynglŷn ag ymgysylltu â staff dwi'n meddwl yw bod arweinyddiaeth yn gwbl hanfodol er mwyn iddo weithio, a'ch bod yn derbyn nad ydych chi byth yn llwyddo mewn gwirionedd i ymgysylltu â'ch holl staff bob tro - mae'n rhywbeth y mae'n rhaid ichi weithio'n gyson arno a hynny er budd eich sefydliad.

### **Alison Ward, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

Wel fy neges allweddol i yw bod arweinyddiaeth a diwylliant yn gwbl allweddol er mwyn ymgysylltu â chyflogeion. Dwi wrth fy modd â'r ymadrodd ei fod yn ymwneud â chyfnwid diwylliant grym am rym diwylliant. A dwi'n meddwl ei bod yn bwysig bod gyda chi'r diwylliant hwnnw yn eich sefydliad lle mae pobl yn teimlo ei bod hi'n ddiogel i siarad, y cânt eu parchu am siarad, y gwrandewir arnynt, ac yn bwysig iawn y gweithredir ar hynny. Oherwydd os mai dim ond siarad gwag ydyw ac nad ydych o ddifri, yna bydd pobl yn sylweddoli hynny'n fuan iawn a byddant yn eithaf sinigaidd. Ac rydych chi eisiau i bobl barhau i ymgysylltu oherwydd rydych chi eisiau newid er gwell.

### **Julie-Ann Haines, Cymdeithas Adeiladu'r Principality**

Dwi'n meddwl ei bod yn hanfodol bod y Rheolwr yn deall ei gyflogeion. Caiff pawb eu hysgogi mewn ffyrdd gwahanol, ac mae'n bwysig iawn bod y Rheolwr yn treulio ei amser yn darganfod beth yw anghenion unigolion, a sut y gall, fel Rheolwr, gynnig hynny i'w dîm.

### **Jane Tidswell, ORC International**

Felly, fy mhwynt allweddol i fyddai gwrandao ar staff a gwneud yn siŵr y caiff eu llais ei glywed, y caiff ei drafod ac y caiff ei ddefnyddio i wella perfformiad busnes.

### **Valerie Rees, Marks and Spencer**

Dwi'n credu mai'r neges fwyaf yr hoffwn ei adael heddiw yw ymadrodd yr ydym yn ei ddefnyddio'n aml yn ein gwaith dyddiol a'n bywyd gwaith, sef "Y Rheolwr sy'n gwneud y gwahaniaeth". Ac efallai bod hynny'n swnio fel sylw sâl, ond mae'n ymwneud â chyfathrebu â'ch Rheolwr Llinell bob dydd, yr amser rydych yn ei dreulio fel Rheolwr gyda phob aelod o'ch tîm, siarad â nhw ynglŷn â beth sy'n mynd ymlaen, deall eu dyheadau gyrfaol, eu hyfforddi ac yn eu datblygu - dyna'r rhan bwysicaf o waith ein Rheolwyr wrth weithio gyda'u tîmau. A mae rhai ohonynt yn rheolwyr llinell i hyd at 25, 30 o bobl. Felly rhan enfawr o'u swydd yw treulio amser gyda phob aelod o'u tîm.

### **John Smythe, Engage for Change**

Yr un neges allweddol yw na allwch lwytho ymgysylltu â chyflogeion ar ben model arweinyddiaeth gorchymyn a rheoli. Rhaid i chi newid y dull o arwain yn gyntaf. Yna gallwch ddechrau ymgysylltu â phobl.

### **David Rosser, Llywodraeth Cymru**

Os oes un neges allweddol yr ydym am i gynadleddwyr ei gael yma heddiw, y neges hwnnw yw bod ymgysylltu â chyflogeion yn bwysig iawn, oherwydd mae er budd perfformiad uchel y sefydliad, ac nid dim ond boddhad staff.